

❖ **DIOLCH AM ANFON IESU I'N BYD**

Diolch i Ti, ein Tad,  
am dymor y Nadolig a Gŵyl y Geni  
pan gofiwn ac y diolchwn am y baban Iesu.  
Er nad oedd ond llety'r anifail yn gysgod  
i Mair a Joseff;

**Diolch i Ti am anfon Iesu i'n byd.**

Er nad oedd i'r baban ond preseb anifail yn grud;

**Diolch i Ti, O Dad, am anfon Iesu i'n byd.**

Am gân yr angylion uwch meysydd Bethlehem:  
'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd.'

**Derbyn ein diolch, nefol Dad.**

Am y bugeiliaid yn gwylio eu praidd liw nos  
ac a aethant ar frys i weld y baban:

**Derbyn ein diolch, nefol Dad.**

Am y doethion a ddaethant o'r dwyrain  
a'u hanrhegion o aur a thus a myrr:

**Derbyn ein diolch, nefol Dad.**

Am y seren ddisglair a dywynnodd yn y ffurfafen  
ac a arhosodd uwchlaw'r lle'r oedd y baban Iesu:

**Derbyn ein diolch, nefol Dad.**

Plygwn ninnau, gyda'r doethion o'r dwyrain,  
gyda'r bugeiliaid o'r meysydd, yn sŵn cân yr angylion,  
ac yng ngoleuni'r seren lachar  
ac addolwn ninnau Grist o'r nef.

Derbyn Di, O Dduw, ein bywydau,  
ein talentau, ein hamser;  
y cyfan a feddwn,  
fel y gallwn heddiw dystiolaethu amdano  
a'i addoli, nid yn unig ar adeg y Nadolig  
ond drwy bob dydd o'r flwyddyn. Amen.